Yn dy Law.

Pan ddaw tywyllwch yma i'n bygwth
Dwy am afael yn dy law.
Pan dwy'n cael fy hun yn unig
Dwy am afael yn dy law.

Pan yr oeddwn i yn ofnus
Rhaid oedd gafael yn dy law.
Pan fu'r ffordd o'm mlaen yn dywyll
Hawdd oedd estyn am dy law.

Nawr dwy yma, hebddot bellach
Dwy yn cofio'th eiriau di,
D'wedaist "Aros yn fy ymyl,
Cadw'th lygaid arna'i."

Rwy'n dy weled draw'n y pellter
Ac mae sawl un gyda thi.
Dwy'n adnabod eu gwynebau
Mae'nt yn annwyl iawn i mi.

Mae eich geiriau o mor eglir
"Paid ag ofni'r oriau du"
Mae swn chwerthyn yn y gole
Sydd yn arllwys drosto chi,
Mae yn arllwys dros'o fi.

h. Geraint Griffiths 1998.